CYNLLUN GWEITHREDU - ADRODDIAD YN ERBYN AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016-2020

Bywyd ac Iechyd

Amcan Cydraddoldeb 1: Lleihau nifer y tanau mewn cartrefi ac anafiadau cysylltiedig drwy strategaeth atal gynhwysfawr sy'n targedu'n benodol y bobl y gellir dangos eu bod mewn mwy o berygl oherwydd eu nodweddion a/neu amgylchiadau penodol.

Amcan Cydraddoldeb 1	Camau Gweithredu	Rheolwr Arweiniol	Blwyddyn Cynnydd 2016-2017	Blwyddyn Cynnydd 2017-2018	Blwyddyn Cynnydd 2018-2019	Blwyddyn Cynnydd 2019-2020
LH/ 02 **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**	Adolygu templed a chanllawiau yr EIA; pennu a fyddai templed diwygiedig yn cynorthwyo staff i gwblhau EIA. Manteisio ar y cyfle i integreiddio ffurflen EIA ddiwygiedig, codi ymwybyddiaeth a gwella ansawdd yr EIA mewn cydweithrediad ag adolygiad Safonau Gwasanaeth Proffesiynol (PSS) o strwythur polisi'r Gwasanaethau. Bydd EA yn asesu'r broses EIA bresennol ac yn gwneud cyflwyniad i broses ymgynghori'r PSS. Fel rhan o'r adolygiad hwn bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno panel sicrhau ansawdd i adolygu a chymeradwyo'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.	**Ymgynghorydd Cydraddoldeb** **Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth Proffesiynol**	Mae'r Grŵp Iechyd, Diogelwch a Lles wedi adolygu strwythur polisi'r Gwasanaethau, ac mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi asesu'r broses EIA gyfredol gan gynnwys y ffurflenni a'r canllawiau.	Mae'r PSS wedi adolygu'r broses bolisi felly mae hyn wedi atal cynnydd yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar bolisïau.	Fe wnaeth PSS greu taenlen yn rhestru'r polisïau Gwasanaethau a'r dyddiadau pan ddiweddarwyd y rhain ddiwethaf, gofynnodd yr EQ am ychwanegu colofn yn nodi a oes gan y polisi EIA cyfredol neu IIA newydd ynghlwm. Bydd polisïau sy'n effeithio ar bobl y tu mewn neu'r tu allan i'r Gwasanaeth yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.	
Adolygu'r broses o asesu effaith ar gydraddoldeb a sefydlu gweithdrefn ar gyfer sicrhau ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd. (EIA)			Trafododd yr adran Safonau Gwasanaeth Proffesiynol a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb y posibilrwydd o gynnal asesiad effaith integredig; byddai hyn yn cynnwys asesiadau gofynnol eraill a rhwymedigaethau cyfreithiol gan gynnwys gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y grŵp yn gweithio i gynhyrchu templed asesu integredig, gyda chanllawiau. Bydd y canllawiau a'r templed hwn yn ymgorffori pob maes â gofyniad cyfreithiol. Fel rhan o'r broses hon, sefydlodd PSS broses i sicrhau ansawdd y polisïau a'r asesiadau o effaith sy'n cael eu cyflwyno gan reolwyr cyn i'r polisi fynd i'r Grŵp Gweithredol i'w gymeradwyo.	Mae proses Asesu Effaith Integredig arfaethedig yn cael ei datblygu, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, bydd yr EA yn rhoi cyngor ar y templed IIA arfaethedig a'r canllawiau.	Mae EA yn aelod o'r Q-Cell; mae'r grŵp yn sicrhau bod yr Asesiad Effaith Integredig angenrheidiol yn cyd-fynd â'r polisi i EG ar gyfer y polisïau sy'n cael eu llunio gan adrannau. Mae hyn yn cynnwys cydraddoldeb, bydd cymorth yn cael ei gynnig i awduron y polisïau os bydd angen cymorth pellach arnynt i gwblhau'r asesiad	
Cynorthwyo'r PSS gyda Ffurflen Asesu Effaith Integredig a Chanllawiau					Cafodd Canllawiau Asesu eu cynhyrchu a'u rhoi ar y fewnrwyd i gynorthwyo rheolwyr i ddeall eu rhwymedigaethau cyfreithiol, ac i sicrhau bod eu polisïau a'u canllawiau yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.	
LH/ 03 **Targedu'r rhai y gwyddom eisoes eu bod mewn mwy o berygl o dân, ar gyfer addysg ac ymyrraeth o ganlyniad i'w**	Defnyddio atgyfeiriadau partner a dulliau eraill i dargedu'r rhai y gwyddom eu bod mewn mwy o berygl o dân, ar sail oedran neu anabledd. Datblygu'r broses Asesu Risg o Gwympiadau ar gyfer ei chyflwyno ar draws Gogledd Cymru yn ehangach.	**Uwch Reolwr Diogelwch Tân**	Mae atgyfeiriadau partner yn parhau i fod yn ofyniad allweddol ar gyfer cyflawni ein strategaeth sy'n ymwneud â gwiriadau Diogel a Da. Mae'r Offeryn Asesu Risg Cwympiadau (FRAT) bellach wedi'i ymgorffori yn y gwiriad Diogel a Da ac mae llwybrau	Yn 2017-2018 ledled Gogledd Cymru, cyflwynwyd cyfanswm o 20,188 o wiriadau gyda 5,454 (27.02%) o'r rheini i bobl a atgyfeiriwyd o asiantaeth arall ac a allai gael eu hystyried yn fwy agored i niwed. Er bod y 27% yn disgyn ychydig yn brin o'r targed o 30%, cydnabyddir bod y cynnydd yn y cyngor a'r wybodaeth sy'n cael eu	Mae GTAGC wedi parhau i dargedu'r rhai y nodwyd eu bod mewn mwy o berygl oherwydd tân trwy adfywio ac ail-ymgysylltu ag asiantaethau partner sy'n darparu atgyfeiriadau SWC. Mae CSM a PM wedi	

nodweddion gwarchodedig, sef oedran ac anabledd. **Sicrhau bod mwy o dargedu ar gyfer diogelu rhag tân na nodweddion eraill.** **Cwblhawyd**	Datblygu gwasanaeth ymateb i gwympiadau mewn partneriaeth â Telecare a WAST		atgyfeirio bellach ar waith mewn tair sir yng Ngogledd Cymru. Cafodd cynllun peilot ymateb i gwympiadau ei ddatblygu a'i gyflwyno gyda llwyddiannau sylweddol. Yn aros am benderfyniadau ynghylch cyflwyno'n ehangach.	darparu fel rhan o Wiriad Diogel a Da yn golygu bod pob ymweliad bellach yn cymryd mwy o amser ac mae hynny'n cael effaith ar nifer yr ymweliadau y gellir eu gwneud mewn diwrnod. Mae oedran yn cael ei ystyried yn un o'r ffactorau cyfrannol sy'n gysylltiedig â risg pan fydd tân yn digwydd yn y cartref. Cynhaliodd y gwasanaeth raglen o waith i gysylltu ag aelodau o'r gymuned a oedd wedi cael tân cegin eleni oherwydd y niferoedd cynyddol a welwyd ledled Cymru. Cysylltwyd ag unigolion a'u holi am eu gweithredoedd cyn, yn ystod ac ar ôl y tân. Amlygodd y wybodaeth a gasglwyd gamau gweithredu a diffyg gweithredu mewn perthynas â sylw wrth goginio, darparu larymau mwg sy'n gweithio, p'un a oedd negeseuon diogelwch a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth wedi'u clywed, eu cofio ac wedi arwain at gamau gweithredu. Mae canlyniadau'r rhaglen wedi bod yn sail i gyfeiriad y Grŵp Diogelwch Cartrefi Cymru Gyfan yn 2018/19 lle bydd y tri Gwasanaeth yn targedu negeseuon o amgylch tanau yn y gegin i gynnwys: • Pwysigrwydd cael larwm mwg sy'n gweithio; • Y risgiau o bod yn bell eich meddwl wrth goginio; • Pwysigrwydd profi larymau; • Pwysigrwydd gadael yr adeilad pan fydd tân yn digwydd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Gwasanaethau dargedu aelodau o'r gymuned mewn ymgais i leihau nifer y tanau oherwydd hyn.	mynychu sesiynau rhyngweithiol yn ystod y dydd a gyda'r nos ac wedi darparu addysg i asiantaethau partner sy'n atgyfeirio mewn perthynas â chynnwys SWC. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ymgysylltu'n llwyddiannus: • Conwy a Sir Ddinbych: Y Ganolfan Golwg a Sain • Gwynedd ac Ynys Mon: Tîm Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau • Sir y Fflint a Wrecsam: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyffuriau ac Alcohol Nodwyd oherwydd y nifer uchel o drosiant staff mewn asiantaethau partner nad yw ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a ddarperir gan GTAGC mewn perthynas â SWC yn hysbys felly mae negeseuon cyfathrebu atgoffa yn tynnu sylw at ddarpariaeth gwasanaeth SWC GTAGC yn cael eu hanfon. O'r 20,640 SWC a gwblhawyd, cyfeiriwyd 5,358 gan asiantaethau partner sy'n cyfateb i 25.96%.	
Amcanion Bywyd ac Iechyd a Gwblhawyd						
Amcan Cydraddoldeb 1: Lleihau nifer y tanau mewn cartrefi ac anafiadau cysylltiedig drwy strategaeth atal gynhwysfawr sy'n targedu'n benodol y bobl y gellir dangos eu bod mewn mwy o berygl oherwydd eu nodweddion a/neu amgylchiadau penodol.						
LH/ 01 **Mapio proses Gwiriadau Diogelwch Cartref o geisiadau ac angen a nodwyd, hyd at eu cwblhau.** **Cwblhawyd**	Cwblhau ymarfer mapio prosesau cynhwysfawr gyda'r nod o wella effeithlonrwydd cynllunio a darparu Gwiriad Diogelwch Cartref gan alluogi'r Gwasanaeth i ganolbwyntio mwy ar bobl y mae eu nodweddion, eu hamgylchiadau a/neu eu hymddygiad yn eu rhoi mewn categorïau amlwg o fod yn fwy agored i niwed.	**Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**	Cynhaliwyd digwyddiad mapio prosesau a fynychwyd gan amrywiaeth o staff gwasanaeth ym mis Tachwedd 2016, ond bu'n rhaid rhoi blaenoriaeth i lwyth gwaith ychwanegol nad oedd modd ei ragweld gan yr adran yn ystod y flwyddyn, ac mae'r gwaith dilynol i lunio argymhellion ar gyfer gwella wedi arafu. Felly bydd y gwaith arfaethedig hwn yn cael ei gario drosodd i flwyddyn ariannol 2017/18.	Edrychir arno eto gyda'r Uwch Reolwr Diogelwch Tân.	**Cwblhawyd** Nid yw mapio wedi symud yn ei flaen oherwydd blaenoriaethau eraill. Mae hyn wedi rhwystro'r gallu i symud ymlaen. Bydd yr amcan hwn yn cael ei adfywio yn y dyfodol pan fydd y systemau sy'n cefnogi hyn ar gael. **Amcan Wedi'i Gwblhau**	**Amcan Wedi'i Gwblhau**
LH/ 02 **Datblygu dull cyson wedi'i dargedu o gasglu a dehongli data risg mewn cyd-destun o nodweddion gwarchodedig, er**	Comisiynu proffil problem strategol i ddeall proffil y rhai sydd wedi'u lladd neu eu hanafu mewn digwyddiadau blaenorol. Gall hyn gynnwys deall risgiau sy'n gysylltiedig ag arferion penodol, ynghyd â phroffil o ble y gall grwpiau neu unigolion penodol fyw yng Ngogledd Cymru	**Uwch Reolwr Diogelwch Tân**	Comisiynwyd a chwblhawyd proffil problem cychwynnol. Bydd gwaith nawr yn parhau i nodi a thargedu'r rhai yr ystyrir eu bod fwyaf mewn perygl ac sydd angen gwiriad integredig 'Diogel a Da'.	**Cwblhawyd** Nid oed unrhyw waith wedi mynd rhagddo yn y maes hwn oherwydd cynnydd cyfyngedig gyda'r rhaglen fapio Cirrus.		**Amcan Wedi'i Gwblhau**

mwyn deall yn llawn a oes unrhyw grwpiau penodol mewn mwy o berygl tân nag un arall. **Cwblhawyd**			Mae gan y Gwasanaeth eisoes fynediad at fanylion mewn perthynas â'r bobl hynny yr ystyrir eu bod mewn risg uwch o ganlyniad i'w hoedran, a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i dargedu gweithgarwch yn y flwyddyn i ddod.			
LH/ 05 **Datblygu system newydd i reoli gwybodaeth risg sy'n berthnasol i'r unigolyn yn hytrach nag i'r adeilad, er mwyn rheoli anghenion y rhai sydd fwyaf mewn perygl o dân yn fwy effeithiol.** **Cwblhawyd**	Datblygu gofynion y broses fusnes a chomisiynu naill ai system newydd, neu gynnal diwygiadau i'n systemau presennol sy'n caniatáu cofnodi gwybodaeth risg sy'n benodol i berson.	**Uwch Reolwr Diogelwch Tân**	Mae prosiectau eraill ar raddfa fawr o fewn TGCh wedi golygu y bydd angen gohirio'r darn hwn o waith tan y flwyddyn nesaf, er bod yr awydd a'r gofyniad yn parhau.	**Cwblhawyd** Nid yw goblygiadau cael cronfa ddata gyfredol, 'person' ganolog yn gyraeddadwy ar hyn o bryd oherwydd nifer o ffactorau: • Diogelu data; • Cywirdeb data Mae'r rheoliadau GDPR newydd yn ei gwneud yn ofynnol rhoi sail rhesymegol â thystiolaeth ar gyfer pob darn o ddata sy'n cael ei gasglu a'i storio, ar gyfer beth y byddai'n cael ei ddefnyddio a pha mor hir y byddai'n cael ei storio. Nid yw'r gallu i gadw'r wybodaeth hon am gyfnod amhenodol yn ymddangos yn ymarferol mwyach. Byddai byrhoedledd unigolion a'r gallu i olrhain eu lleoliad cyfanheddol yn dibynnu'n llwyr arnyn nhw yn ein hysbysu ar bob cam. Nid oes angen personol i unigolion wneud hyn, fel y byddai mewn meysydd eraill fel bancio, ac felly byddai'r wybodaeth yn darfod yn gyflym iawn. Oherwydd y materion hyn, nid yw'r gallu i ddatblygu'r dyhead hwn wedi'i wireddu ac ni fydd yn cael ei wireddu.	**Cwblhawyd** Nid yw'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer cynnydd y llynedd wedi newid. Nid oes gan y system RMS gyfredol y gallu i reoli'r data fel hyn; mae'n benodol i gyfeiriad yr eiddo. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn y dyfodol pan fydd system newydd yn cael ei chaffael.	**Cwblhawyd** **Cwblhawyd** Nid yw'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer cynnydd y llynedd wedi newid. Nid oes gan y system RMS gyfredol y gallu i reoli'r data fel hyn; mae'n benodol i gyfeiriad yr eiddo. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn y dyfodol pan fydd system newydd yn cael ei chaffael. **Amcan Wedi'i Gwblhau**
LH/ 06 Ymgorffori cydraddoldebau yng nghynllun cyflenwi blynyddol grwpiau llywio Ymgyrchoedd Diogelwch Tân sy'n gysylltiedig â dyddiadau a digwyddiadau allweddol er mwyn defnyddio cyfleoedd i ymgysylltu â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. **Cwblhawyd**	Codi ymwybyddiaeth o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y Grŵp Llywio Ymgyrchoedd ac ystyried y gofyniad i ymgymryd â gweithgareddau penodol i gefnogi unigolion neu grwpiau o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig.	**Uwch Reolwr Diogelwch Tân**	**Cwblhawyd** - mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd bellach yn ystyried yr holl gyfleoedd cydraddoldeb a diwrnodau gweithredu, ac yn sicrhau adnoddau yn unol â hynny.	**Cwblhawyd** - mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd bellach yn ystyried yr holl gyfleoedd cydraddoldeb a diwrnodau gweithredu, ac yn sicrhau adnoddau yn unol â hynny.	**Cwblhawyd** - mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd bellach yn ystyried yr holl gyfleoedd cydraddoldeb a diwrnodau gweithredu, ac yn sicrhau adnoddau yn unol â hynny.	**Cwblhawyd** - mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd bellach yn ystyried yr holl gyfleoedd cydraddoldeb a diwrnodau gweithredu, ac yn sicrhau adnoddau yn unol â hynny. **Amcan Wedi'i Gwblhau**

Cyflogaeth a Thâl

Amcan Cydraddoldeb 2: Trwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith.

Amcan Cydraddoldeb 2	Camau Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Blwyddyn Cynnydd 2016-2017	Blwyddyn Cynnydd 2017-2018	Blwyddyn Cynnydd 2018-2019	Blwyddyn Cynnydd 2019-2020
EP/ 02 **Ymgysylltu â sefydliadau addysgu i gynnal diwrnodau agored i arddangos opsiynau gyrfa mewn peirianneg ar gyfer merched sy'n gadael ysgol**	Ystyried diwrnodau agored yn Fflyd i arddangos y busnes a'r rhagolygon posibl ar gyfer ymgeiswyr benywaidd. Rhedeg y broses hon ochr yn ochr ag ymgysylltu â diffoddwyr tân benywaidd/gweithredu cadarnhaol. Annog sefydliadau addysgu i ymgorffori nodau cydraddoldeb yn eu hamcanion mewn perthynas â rolau swyddi traddodiadol.	**Rheolwr Fflyd**	Mae'r Adran Fflyd wedi llwyddo i ddenu ymgeiswyr benywaidd i rôl technegydd cerbydau prentis. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth â chydweithrediad coleg addysg bellach lleol. Mae'r adran yn gobeithio symud ymlaen â hyn yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod.	Ni wnaed unrhyw gynnydd hyd yma	Ar ôl llwyddo i ddenu technegydd cerbyd prentis benywaidd, mae'r Adran Fflyd, ar ddiwedd llwyddiannus i'r brentisiaeth honno, wedi gallu cynnig swydd barhaol i'r prentis benywaidd fel Technegydd Cerbyd Trwm cwbl gymwys. Mae'r adran wedi gweithio i adeiladu perthynas dda gyda'r Adran Peirianneg Cerbydau yng Ngholeg Menai a bydd yn ceisio adeiladu ar y berthynas hon trwy archwilio mentrau gweithredu cadarnhaol yn y dyfodol.	
EP/ 03 **Trwy arferion cyflogaeth, rhaglenni a chynlluniau GTAGC cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal at waith.**	Ymgynghorwyr Ffitrwydd i ymweld â champfeydd a chanolfannau hamdden yn ystod oriau brig, yn ogystal â mynychu digwyddiadau chwaraeon benywaidd e.e. Ras Am Oes.	**Pennaeth AD** **Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu** **Ymgynghorydd Cydraddoldeb**	Presenoldeb staff AD mewn digwyddiadau rhwydwaith PRISM a LGBT, ynghyd â GTAGC yn ymddangos ar wefan Dreambig sydd wedi'i hanelu'n benodol at ferched ifanc sy'n byw yng Nghymru. Bwriad hyn yw codi proffil diffoddwyr tân gan ei fod yn rhoi sylw i yrfa diffoddwr tân System Dyletswydd Amser-llawn benywaidd.		**Cynllun Cyfeillgar i Faethu** - mae'r gwaith wedi cychwyn mewn perthynas â bod yn gyfeillgar i faethu er mwyn sicrhau bod gan weithwyr gefnogaeth mewn perthynas â chyfrifoldebau gofalu. Mae'r Gwasanaeth wedi rhoi'r **'Pecyn Cymorth Gweithlu sy'n Heneiddio'** ar waith sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i godi ymwybyddiaeth yn y Gwasanaethau Tân ac Achub o'r ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud â'r gweithlu sy'n heneiddio. Mae'n canolbwyntio ar, ac yn crynhoi, y materion allweddol ym meysydd Cymorth Seicolegol, Lles a Chynllunio ar gyfer Ymddeol, gan ddarparu offer ac adnoddau sydd ar gael i reolwyr a gweithwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'r Gwasanaeth wedi llofnodi **Addewid Cyflogwr Bwrdeistref Sir Wrecsam.** Mae'r addewid hwn yn cefnogi'r weledigaeth y bydd cyflogwyr o bob sector yn gweithio gyda'i gilydd i wneud	

					y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. **Adolygiad o bolisi a gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban** gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd hyn er mwyn rhoi lefel o sicrwydd i'r rheolwyr bod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, bod risgiau posibl yn cael eu rheoli'n dda a bod amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni. Roedd yr adolygiad yn cynnwys: • Polisi a gweithdrefnau clir a sut maen nhw'n cael eu lledaenu i staff, cyflenwyr a chontractwyr; • Cyfrifoldebau a hyfforddiant swyddogion enwebedig clir; • Derbyn, recordio a rhifo • Rheoli datgeliadau ac ymatebion i'r rhai sy'n chwythu'r chwiban yn effeithiol; • Monitro Perfformiad ac adrodd. Fe wnaeth canfyddiadau'r archwiliad arwain at sgôr sicrwydd boddhaol.	
	<u>Gweithredu Cadarnhaol</u> Targedu darpar recriwtiaid benywaidd trwy nifer o fentrau ychwanegol gan gynnwys cysylltu â chlybiau chwaraeon, h.y. Cymdeithas Pêl-droed Merched, timau rhedeg, hoci a phêl-rwyd.	**Pennaeth AD** **Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu** **Ymgynghorydd Cydraddoldeb**		Cynhaliwyd sawl Diwrnod Gweithredu Cadarnhaol ar gyfer ymgeiswyr benywaidd, LGBTQ a BEM i gyd-fynd â diwrnodau dethol. Cynhaliwyd yn y Rhyl a Dolgellau. Mae hyn ynghyd ag ymgysylltu ag ymgeiswyr wedi'i ddatblygu trwy AD a T&D. Mae prentisiaethau hefyd i'w cynnwys fel rhan o waith gweithredu cadarnhaol i helpu i gynyddu rhagolygon cyflogaeth ac annog pobl i gael mynediad cyfartal.		
	<u>Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol</u> Adolygu diwrnodau Gweithredu Cadarnhaol a chyfrannu at gynhyrchu Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol. Defnyddio arfer gorau ac ymgorffori'r offer a'r broses i gynnal	**Pennaeth AD** **Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu**	Mae digwyddiadau gweithredu cadarnhaol wedi'u cynnal cyn pob un o'r tri cham recriwtio a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Cynigiwyd y diwrnodau mewn sawl lleoliad ledled Gogledd Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth a cheisiadau gan	<u>Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol</u> Anfonwyd y Strategaeth PA at aelodau'r grŵp PA i gael sylwadau ac unrhyw argymhelliad yr hoffent ei weld yn cael ei ymgorffori yn y Strategaeth. Bwriad y Strategaeth hon yw bod yn ddogfen fyw ac,	O ddechrau'r ymgyrch recriwtio hon, roedd y pwyslais ar sicrhau cyflawni gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau. O ganlyniad i lwyddiant ein **gwaith gweithredu cadarnhaol**, er mwyn annog nifer fwy o ymgeiswyr	

	digwyddiadau gweithredu cadarnhaol effeithiol mewn un polisi gyda deunydd ategol	**Ymgynghorydd Cydraddoldeb**	grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ystod yr ymgyrch RDS. Fe wnaeth Ymgynghorwyr Ffitrwydd Corfforol fynychu campfeydd ledled Gogledd Cymru ac ymgysylltu â darpar recriwtiaid i'w gwneud yn ymwybodol o'r a'r ymgyrchoedd recriwtio staff wrth gefn a phrentisiaid. Fe wnaethom godi ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned LGBT trwy hysbysebu trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu targedu'n benodol. Dilynodd ôl-drafodaeth bob un o'r digwyddiadau a thrafodwyd hyn yn y cyfarfodydd Adnoddau Gweithredol. Yn dilyn hyn, addaswyd pob cam i sicrhau y byddai ymgeiswyr sy'n mynychu Gweithredu Cadarnhaol yn cael y gorau o'r digwyddiadau trwy werthuso'r unigolion wnaeth fynychu. Aeth mwyafrif y mynychwyr ymlaen i ymgeisio am rôl. Cynigiwyd cyngor ac arweiniad hefyd i unigolion nad oeddent yn gallu cyflawni'r safonau cryfder cyhyrol gofynnol (codi ysgol). Mae'r adborth a gafwyd o'r digwyddiadau hyn wedi bod yn gadarnhaol. <u>Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol</u> Bydd y gwaith hwn a wnaed yn ystod tri cham recriwtio yn helpu i lunio golwg y Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol a gwerthuso'r gwaith mae'n rhaid ei wneud i gynorthwyo denu i bob agwedd ar y Gwasanaeth. Bydd monitro a dadansoddi'r data recriwtio yn rhoi ffocws i waith yn y dyfodol.	wrth i'r prosesau Gwasanaethau ddatblygu, bydd y Strategaeth PA yn cael ei diwygio lle mae'n berthnasol a bydd arfer da yn cael ei ymgorffori yn y Strategaeth. Mae'r EA yn mynychu'r IFSG Cenedlaethol NFCC, lle mae cyfoeth o arfer da yn cael ei rannu. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Nottingham wedi creu taenlen sydd wedi coladu pa brofion dethol mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub y DU, rhannwyd y wybodaeth hon gyda'r Ymgynghorydd Ffitrwydd Corfforol	benywaidd, rydym wedi gallu recriwtio nifer cyfartal o ddynion a merched, pob un yn cyflawni'r safonau gofynnol. Ymhlith yr 20 ymgeisydd llwyddiannus mae: 3 x BAME 5 x LGBT+ 1 x Anabledd	
EP/ 04 **Hyrwyddo polisïau i gynorthwyo ac annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymhlith gweithwyr GTAGC.**	Cynhyrchu cynllun Mamolaeth/tadolaeth gwell sy'n ymgorffori deddfwriaeth ddiweddar i hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth a chydraddoldeb. Ymchwilio i ganllawiau i weithwyr sy'n ymgymryd â chyfrifoldeb gofalu (Canllawiau Gofalwyr ar gyfer Dibynyddion).	**Pennaeth AD**	Mae polisi Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu wedi'i ddrafftio, i ymgorffori deddfwriaeth ddiweddar. Yn dilyn cymeradwyaeth y Grŵp Gweithredol, cwblhaodd y polisi gyfnod ymgynghori ac mae bellach wedi'i roi ar y fewnrwyd.	**Gweithio tuag at ddod yn Gyfeillgar i Ddementia** Mae GTAGC wedi bod yn datblygu gwaith Gwasanaeth cymunedol gyda phobl sy'n byw gyda dementia ers sawl blwyddyn ac fel rhan o hyn, mae diogelwch. Mae'r gwaith yn parhau tuag at gael ei gydnabod fel Sefydliad sy'n Gyfeillgar i Ddementia. Ar hyn o bryd mae GTAGC yn ail-ymgeisio i adnewyddu ei statws 'Gweithio i ddod yn Gyfeillgar i Ddementia'.	**Statws cyfeillgar i ddementia - wedi'i gwblhau a'i gyflawni.** **Diwrnod Iechyd a Lles: ar gyfer Gweithwyr Salwch Hirdymor.** Nod y diwrnod oedd rhoi cyfle i weithwyr gymryd rhan mewn Gweithdai Tai Chi, Ymwybyddiaeth Ofalgar ac Ymlacio, Ioga, Maeth a Ffitrwydd. Nod y gweithdai hyn yw targedu negeseuon iechyd allweddol ac fe'u cynlluniwyd i fod yn rhyngweithiol ac yn addysgiadol. Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a gyda phartneriaid ledled Gogledd	

					Cymru i ddatblygu **Cael Gogledd Cymru i Symud.** Mae hwn yn gydweithrediad o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i alluogi pobl i symud mwy a bod yn llai llonydd ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi'r gweithle fel lleoliad allweddol ac mae hyn yn un o'r meysydd blaenoriaeth. Mae partneriaid allweddol yn ystyried y dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio; rhannu dysg rhwng sefydliadau ac ystyried pa gamau cydweithredol y gellir eu cymryd i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn y gweithle. **Hyfforddiant cyfryngu** Mynychodd staff AD gwrs 4 diwrnod mewn sgiliau Cyfryngu, a ddarparwyd gan ACAS. Mae'r cwrs hwn yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth i'w rhoi i reolwyr llinell a gweithwyr a allai fod yn gwrthdaro, gyda'r nod o ddatrys materion yn gynharach i atal absenoldeb a chwynion. **Rhoi buddion gweithwyr newydd ar waith - cardiau Vectis.** Mae'r Gwasanaeth wedi rhoi cynllun buddion gweithwyr newydd. Gall pob gweithiwr gyrchu'r wefan bwrpasol i ddefnyddio gostyngiadau manwerthu a hamdden gan nifer o ddarparwyr lleol a chenedlaethol. Mae hyn hefyd yn cynnwys rhaglen prydlesu ceir personol, lle gellir gwneud arbedion. Cyflwynwyd y cynllun buddion gweithwyr hwn i helpu gweithwyr i fanteisio ar arbedion a gostyngiadau a allai fod ar gael fel y gallant wneud arbedion gyda gwariant personol.	
	Wedi cynhyrchu canllawiau ar fynd i'r afael â materion Iechyd Meddwl yn y gwaith ar gyfer gweithwyr a Rheolwyr Llinell (h.y. mynediad i Ymwybyddiaeth Ofalgar)	**Pennaeth AD**	Mae GTAGC wedi ymuno â Mind, Mindful Employer, a Time for. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gadarnhad o gyllid ar gyfer cyflwyno Hyrwyddwyr Golau Glas.	**Golau Glas Rhaglen Golau Glas Mind (BLP)** Mae'r Rhaglen Golau Glas yn rhoi cefnogaeth iechyd meddwl i staff gwasanaethau gwirfoddol a gwirfoddolwyr o'r heddlu, tân, ambiwlans a chwilio ac achub. Mae'r rhaglen yn cefnogi iechyd meddwl holl staff a gwirfoddolwyr y gwasanaethau brys yng Nghymru a Lloegr, gan godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, mynd i'r afael â stigma a helpu staff i ymdopi'n well. Fe wnaeth 18 o weithwyr o bob rhan o'r Gwasanaeth gynnig eu hunain	**Iechyd Meddwl - Rhaglen Golau Glas Mind (BLP)** Mae cyfanswm o 25 o hyrwyddwyr Golau Glas yn y sefydliad wedi'u recriwtio, maen nhw wedi mynychu'r cwrs Dweud eich Dweud, Dweud eich Barn a'r cwrs Cefnogi Cyfoedion, i ddarparu gwell dealltwriaeth o iechyd meddwl, yn enwedig yn y gwasanaethau golau glas, a sut i gefnogi cyfoedion a cydweithwyr.	

				i ddod yn Hyrwyddwyr Golau Glas fel rhan o raglen a ddyfeisiwyd gan elusen iechyd meddwl Mind. Mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi ymuno â Rhaglen Golau Glas MIND er mwyn darparu cymorth iechyd meddwl pellach i weithwyr. Bydd gan y Gwasanaeth dîm o Hyrwyddwyr Golau Glas wedi'u hyfforddi'n llawn yn y sefydliad sy'n gweithredu i godi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl a herio stigma iechyd meddwl yn y gweithle. Mae holl aelodau Uwch y Tîm AD yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl yn 2018 i gynorthwyo rheolwyr i gefnogi'r rhai sy'n profi anawsterau. Bydd y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth hon yn cael eu rhaeadru i weithwyr. Mynychodd 13 o'n staff weithdy 1 diwrnod 'Dweud eich Dweud, Dweud eich Barn' a gyflwynwyd gan yr elusen iechyd meddwl 'Mind' yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ddydd Iau diwethaf. Mae erthygl wedi'i chynnwys yn y briff wythnosol yn dilyn yr hyfforddiant. Mae gwybodaeth am y rhaglen hefyd yn cael ei chynnwys a'i chwmpasu fel rhan o'r hyfforddiant Rheoli Presenoldeb pan fydd yn cael ei gyflwyno i orsafoedd ac adrannau. Mae hyfforddiant yn y dyfodol gan Mind (ar gyfer hyrwyddwyr a rheolwyr) a gweithgareddau yn cael eu hystyried i gyfathrebu a hyrwyddo'r rhaglen ymhellach wrth symud ymlaen. **PTSD 999** Mae gwaith wedi cychwyn mewn perthynas â PTSD999 sy'n elusen newydd ac annibynnol a ariennir gan roddion preifat. Mae'r elusen yn unigryw yn y ffordd y bydd yn darparu cefnogaeth; mae mwyafrif ei ymddiriedolwyr, gweinyddwyr ac yn bwysicaf oll meddygon a staff cwnsela wedi gwasanaethu yn y Gwasanaethau Brys a/neu'r Fyddin ac wedi dioddef PTSD, neu mae ganddynt gysylltiadau agos â rhywun sydd wedi. Mae'r Gwasanaeth wedi defnyddio'r elusen hon i gefnogi unigolion a allai fod â PTSD. **SafeTalk Hunanladdiad; sgiliau i bawb fod yn effro i hunanladdiad** Mae Uwch Ymgynghorwyr AD ac aelodau o'r Tîm Cymorth i Gydweithwyr wedi cwblhau hyfforddiant hanner diwrnod ar fod yn effro i hunanladdiad. Mae'r cwrs yn cyflwyno camau ymarferol i gynnig help ar unwaith i rywun sy'n meddwl am hunanladdiad ac yn helpu'r rhai dan sylw i gysylltu â chymorth mwy arbenigol.	Cynhaliwyd pum gweithdy Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gwasanaethau Brys ai reolwyr llinell (54 yn bresennol) i helpu i ddarparu mwy o wybodaeth ar gefnogi a rheoli aelodau tîm â lles meddyliol gwael. Fe wnaeth gweithwyr (gwirfoddolwyr ar gyfer rolau arbenigol) hefyd fynychu Cwrs Trawma Mind i gael gwell dealltwriaeth o drawma a sut i gynorthwyo gweithwyr i ddelio â thrawma. Mae gweithwyr hefyd wedi mynychu cwrs Gwydnwch (2 awr yr wythnos dros 5 wythnos) i ddysgu mwy am eu gwytnwch meddyliol eu hunain a sut i gynnal hyn.	
		Pennaeth AD	**CIDB/FLO** Y cynllun Ôl-drafodaeth Digwyddiadau Tyngedfennol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru ar sail Cymru gyfan. Rydym wedi cyflwyno	**CIDB/FLO** Proses recriwtio wedi'i chynnal i benodi gwirfoddolwyr CIDB a FLO i gefnogi'r rhai sydd wedi mynychu digwyddiadau	**CIDB / FLO** Cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda gwirfoddolwyr CIDB a FLO i sicrhau bod y cynllun yn parhau i	

			gwasanaeth cwnsela ffôn 24/7 trwy Raglenni Cymorth i Weithwyr. Hyfforddiant i'w raeadru i'r holl reolwyr llinell a gweithwyr ar ddarparu'r gwasanaethau uchod (a'i ychwanegu at fodiwl Learnpro).	trawmatig neu i gefnogi'r teuluoedd yn dilyn marwolaeth gweithiwr. Mae'r ddau grŵp o wirfoddolwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant.	redeg fel y bwriadwyd. Mynychodd ôl-drafodwyr yr hyfforddiant Trawma gyda Mind i helpu i ddarparu gwybodaeth a sgiliau pellach wrth ymgymryd ag ôl-drafodaethau a chydnabod arwyddion pan fydd angen cymorth pellach ar weithwyr efallai. Dogfen polisi/arweiniad wedi'i hadolygu i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r arfer cyfredol.	

Amcanion Newydd Cyflogaeth a Thâl

Amcan Cydraddoldeb 2: Trwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith.

Amcan Cydraddoldeb 2	Camau Gweithredu	Arweinydd Swyddog	Cynnydd Blwyddyn 2016-2017	Cynnydd Blwyddyn 2017-2018	Cynnydd Blwyddyn 2018-2019	Cynnydd Blwyddyn 2019-2020
EP/09 **Cynhyrchu Llawlyfr Cydraddoldeb/Amrywiaeth Gwasanaeth** **NEWYDD**	Cynnal ymchwil ar draws FRS ac Awdurdodau Lleol eraill i nodi fformatau a chynnwys perthnasol ar gyfer Llawlyfr Cydraddoldeb Gwasanaeth.	**Ymgynghorydd Cydraddoldeb**	Mae'r Llawlyfr Cydraddoldeb Staff ar ffurf drafft ar hyn o bryd a bydd yn barod y flwyddyn nesaf.	Mae gwaith ymchwil ac ysgrifennu Llawlyfr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Staff yn parhau i fod heb eu cyflawni, mae cais wedi bod i'w ymestyn i Staff Llyfr Llwyd felly mae wedi'i wahanu i amcan arall.	Mae cynnwys y llawlyfr Cydraddoldeb hwn yn ganllaw i staff, mae wedi'i adolygu a bydd staff yn ei ddefnyddio fel canllaw cyflym, bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag adolygiad o'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn 2019/20.	Mae cynnwys y llawlyfr Cydraddoldeb hwn wedi'i adolygu a'r bwriad yw iddo fod yn ganllaw cyflym i staff, i gyd-fynd â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd wedi'i adolygu, gohiriwyd hyn oherwydd proses bolisi newydd sydd ar ddod, bydd hwn yn cael ei **Gario Ymlaen**
EP/10 **Grŵp Tân ac Achub Cynhwysiant** **Rhoi'r camau gweithredu ar waith fel sydd wedi'u blaenoriaethu gan y Grŵp Gwasanaeth Tân Cynhwysol** **(Adran 4 Cynhwysiant y Strategaeth Sefydliadol Pobl a Datblygu)** **NEWYDD**	Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau a bydd staff yn y lleoliad hwnnw yn cael eu gwahodd i arsylwi ar y cyfarfod.	**Pennaeth AD** **Ymgynghorydd Cydraddoldeb**		Fe wnaeth EA fynychu gweithdy cynhwysiant NJC/FBU y llynedd ac arweiniodd hyn at ddarn cynhwysfawr o waith i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gwasanaethau tân ac achub a'u gweithwyr, i ystyried materion cydraddoldeb, amrywiaeth, diwylliannol ac ymddygiadol gyda'r pwrpas o ddatblygu strategaethau. Gofynnwyd i Wasanaethau Tân ac Achub ystyried yr adroddiad o'r gweithdai ar lefel swyddogion ac aelodau. O ganlyniad, nodwyd Aelod o'r FA ynghyd ag ACFO Simmons a fydd yn arwain y Grŵp Cynhwysiant. Mae aelodau staff ac undebau wedi'u nodi i fod yn bresennol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfarfodydd pellach wedi'u trefnu eleni.	Mae'r Cynghorydd Lloyd-Williams yn cadeirio grŵp trawsbynciol sy'n cynnwys aelodau staff, cyrff cynrychioliadol ac uwch reolwyr. Mae'r grŵp hwn â'r dasg o fonitro cynnydd a hyrwyddo mentrau newydd yn unol â'r strategaethau y cytunwyd arnynt. Y blaenoriaethau yw gwella ymgysylltiad â staff o amgylch y meysydd allweddol a chyflawni gwaith yn dilyn argymhellion pellach gan yr NJC IFSG. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, gwnaed cynnydd sylweddol yn erbyn strategaethau allweddol. Mae mentrau allweddol wedi mynd i'r afael â recriwtio o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; hyfforddiant staff i nodi a herio tuedd anymwybodol a rhoi'r cynllun Hyrwyddwyr Golau Glas wedi'i nodd gan MIND ar waith, sy'n rhoi cymorth iechyd meddwl i weithwyr gwasanaethau brys. Gweler y Blaengynllun Gwaith sydd wedi'i atodi ar gyfer 2018-19 am wybodaeth bellach. Mae camau gweithredu (a chynnydd yn eu herbyn) yn cael eu cofnodi yn y Blaengynllun Gwaith IFSG. Datblygu uwch reolwyr trwy raglenni arweinyddiaeth sydd â chynwysoldeb wedi'u hymgorffori ynddynt. Llwyfan Arweinyddiaeth Gweithredol/rhaglenni Strategol 'Arloesol' a 'Her' Rheolwr Canol. Cyfarfodydd Uwch Dîm Arweinyddiaeth a FBU rheolaidd. Undebau'n cael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynhwysiant. Cyfranogiad cyrff cynrychiolwyr yn ystod Archwiliad HSE diweddar i GTAGC.	

					Recriwtiwyd dwy garfan o brentisiaid FF ar ôl datblygu fframwaith cymwysterau rhwng GTAGC a Choleg Llandrillo Menai. Carfan 1 wedi'i chwblhau a phob un wedi cael cynnig Swyddi FF parhaol. Prentisiaeth FF Cymru Newydd wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith. Lleoliadau Profiad Gwaith Mae nifer o orsafoedd yn cefnogi rhaglenni Cadetiaid Tân wedi'u halinio â chymhwyster BTEC. Mae'r grwpiau hyn yn cael eu cefnogi gan ddiffoddwyr tân lleol Ar Alwad, hyfforddwyr lleyg a Rheolwyr Gwylfa adrannol. Proses ddethol Goruchwylio RDS - dull cymysg hyblyg o asesu sy'n ystyried cymwysterau/sgiliau cronedig. Cwblhawyd asesiadau Rheolwyr Goruchwylio a Rheolwyr Canol 18/19 - cyflwyno cynllun datblygu yn seiliedig ar berfformiad ymgeiswyr yn yr ADC a'i groes-fapio i'r PQA cenedlaethol. Offer ADC i'w hadolygu yn 2019 er mwyn eu rhoi ar waith yn 2020. Rheolwyr goruchwylio, canol a strategol wedi ymgymryd â chymwysterau Hyfforddi a Mentora Lefel 3, Lefel 5 a Lefel 7. Mae dyrchafiad dros dro yn agored i holl staff y Llyfr Llwyd sydd wedi mynegi diddordeb mewn gwneud cais a chymryd rhan yn y broses dyrchafu. Lle mae angen sgiliau arbenigol gellir dyrchafu unigolion dros dro pan nad ydyn nhw'n cymryd rhan yn y broses dyrchafu. Cefnogaeth a datblygiad os oes angen. Mae hyfforddiant a chyrsiau arweinyddiaeth ar gael trwy'r Llwybrau fel sydd wedi'i nodi ar gyfer pob rôl. Nosweithiau agored wedi'u cynnal mewn gorsafoedd i ddarparu gwybodaeth i ymgeiswyr Ar Alwad a chyfle i ymgysylltu â diffoddwyr tân Ar Alwad sy'n gwasanaethu. Mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu gwahodd i fynychu diwrnodau gweithredu cadarnhaol sy'n cynnwys y cyfle i ymarfer profion corfforol. Yn 2018 gweithiodd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i gynhyrchu Strategaeth Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol 2018-2021 i gefnogi recriwtio a datblygu gweithlu sy'n croesawu ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.	

EP/11 **Grŵp Tân ac Achub Cynhwysiant** **Adolygu ac Ailysgrifennu Gwerthoedd Craidd y Gwasanaethau** **NEWYDD**	Bydd aelodau'r Grŵp Gwasanaeth Tân Cynhwysol yn adolygu'r Gwerthoedd Craidd cyfredol ac yn ailysgrifennu'r Gwerthoedd i adlewyrchu'r Gwasanaeth heddiw.	**Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth Proffesiynol** **Pennaeth AD** **Ymgynghorydd Cydraddoldeb**			Mae'r Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth Proffesiynol wedi cynnig ailysgrifennu'r Gwerthoedd Craidd i adlewyrchu Gwasanaeth heddiw. Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi ymchwilio i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r diwydiant preifat ar gyfer arfer da. Dosbarthwyd hwn i aelodau'r grŵp cyn cyfarfod a drefnwyd ym mis Gorffennaf 2019	
Sicrhau ansawdd Asesiadau Effaith Integredig (IIA) fel rhan o strwythur polisi'r Gwasanaeth. **NEWYDD**		**Uwch Reolwr Safonau Gwasanaeth Proffesiynol**			Mae IIA wedi'u hintegreiddio i'r Grŵp QA Polisi a Gweithdrefn	.
Amcanion Cyflogaeth a Thâl a Gwblhawyd						
Amcan Cydraddoldeb 2: Trwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith.						
Amcan Cydraddoldeb 2	**Camau Gweithredu**	**Arweinydd Swyddog**	**Blwyddyn Cynnydd 2016-2017**	**Blwyddyn Cynnydd 2017-2018**	**Blwyddyn Cynnydd 2018-2019**	**Blwyddyn Cynnydd 2019-2020**
EP/ 01 **Sicrhau bod tactegau, offer a chyfarpar diogelu personol (PPE) yn y dyfodol yn cyd-fynd ag anghenion y Gwasanaeth a chymryd sylw o'r nodweddion gwarchodedig.** **Sicrhau bod offer yn fwy ymarferol yn ergonomegol, yn lleihau pwysau heb gyfaddawdu ar y gofynion technegol, a bod PPE yn addas at y diben heb wahaniaethu** **Cwblhawyd**	Ymgorffori ethos gwelliant parhaus mewn offer gweithredol a PPE mewn perthynas â phob maes a allai gael effaith niweidiol ar y rhai sy'n dod o dan y nodweddion gwarchodedig.	**Uwch Reolwr Gweithrediadau**	Mae'r gofyniad i adolygu offer yn unol â gwell ergonomeg ac i leihau pwysau heb gyfaddawdu ar ei ddefnydd wedi'i gynnwys wrth werthuso offer newydd. Bydd holl dactegau'r dyfodol yn cyd-fynd â'r Rhaglen Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol.	Mae'r gofynion a nodwyd yn y diweddariad o'r flwyddyn flaenorol yn parhau i fod yn berthnasol ac maen nhw wedi cynnwys caffael setiau BA ac Anadlyddion Materion Personol. Bydd angen prawf ffit wyneb ar yr Anadlyddion hyn a fydd yn galluogi darparu offer pwrpasol wedi'i ffitio i wahanol siapiau wynebau unigol.	Mae caffael PPE wedi cynnwys y gofynion ar gyfer maint pwrpasol yn nogfennaeth y fanyleb. Bydd y tîm sy'n cynnal profion PPE yn gorfforol yn cynnwys casgliad o staff sy'n cynnwys dynion a merched a chasgliad o wahanol siapiau corff i sicrhau bod y cit sy'n cael ei gaffael yn addas i bawb.	Mae'r broses gaffael wedi'i chwblhau a'r tendr wedi'i ddyfarnu. Bydd archebion cit newydd yn cael eu gosod tua diwedd 2019/20 gyda disgwyliad y bydd cit newydd yn cael ei gyhoeddi yn 2020/21. **Amcan Wedi'i Gwblhau**
EP/ 05 **Gweithio tuag at gyflwyniad i Fynegai Stonewall**	Meincnodi GTAGC yn erbyn Mynegai Stonewall. Bydd y Rheolwr AD ac EA yn datblygu cynllun gweithredu gan edrych yn fanwl ar y gofynion y byddai angen i GTAGC eu cyflawni i alluogi'r Gwasanaeth i baratoi cyflwyniad i Fynegai Gweithle Stonewall. Ystyried unrhyw oblygiadau cyllidebol.		Bydd y Rheolwr AD a'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn gweithio i feincnodi GTAGC yn erbyn Mynegai Gweithle Stonewall 2017. Y bwriad yw defnyddio'r mynegai ac ymestyn yr ymarfer meincnodi i'r holl nodweddion gwarchodedig. Fe wnaeth GTAGC a BCUHB gynnal digwyddiad ar y cyd i gynnal Rhaglen Cynghreiriaid Stonewall ym mis Awst 2016. Y digwyddiad hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Ngogledd Cymru. Mynychodd un o Gynghreiriaid newydd Stonewall Gynhadledd Stonewall yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2017.	Fe wnaeth yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb gyfarfod rheolwr cyfrifon Stonewall ym mis Awst i adolygu a thrafod y newidiadau a wnaed i fynegai eleni. Bydd EA yn defnyddio'r mynegai i gynhyrchu Dadansoddiad Bwlch yn erbyn pob un o'r nodweddion gwarchodedig ac yn defnyddio'r dadansoddiad i ddrafftio cynllun gwaith ar gyfer gwella yn y dyfodol. Gohiriwyd dwy sesiwn ar Duedd Anymwybodol a oedd i fod i gael eu cynnal ym mis Chwefror oherwydd tywydd gwael. Y bwriad yw cynnal yr hyfforddiant ym mis Ebrill. Bydd tair adran yn	**Cwblhawyd** Rhoddwyd aelodaeth barhaus Stonewall i aelodau'r Grŵp Gwasanaeth Tân Cynhwysol; byddai cost aelodaeth blwyddyn yn galluogi aelodau staff eraill i fynychu digwyddiadau cenedlaethol a lleol eraill sy'n cwmpasu detholiad mwy o'r nodweddion gwarchodedig, bydd hyn yn helpu i gryfhau gwybodaeth ar draws y gwasanaeth. Daeth aelodaeth â Stonewall i ben. **Amcan Wedi'i Gwblhau**	**Amcan Wedi'i Gwblhau**

				ymgymryd â'r hyfforddiant, a bydd yn cynnwys tua 30 o staff.		
